

---

# Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Haf 2021

---

**ADRODDIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 9 Medi 2021

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	3
2. Dangosfyrddau	8

# 1. Trosolwg

Dyma'r ail ddiweddariad dros dro i'n hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Mae wedi'i seilio ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Mai 2021.

## Prif Ganfyddiadau

**Mae nifer y cartrefi sy'n gallu cael band eang cyfradd gigadid** wedi cynyddu i dros 11.6 miliwn o gartrefi (40% o holl gartrefi'r DU), i fyny o 10.8 miliwn (37%) ers ein diweddariad diwethaf.

**Mae'r ddarpariaeth ffeibr llawn yn parhau i gynyddu'n gyflym, i fyny at 24%** o 21% yn y pedwar mis rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mai 2021, cynnydd o 3 phwynt canrannol (ppt), gydag ychydig o dan saith miliwn o gartrefi yn cael darpariaeth erbyn hyn.

**Mae darpariaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn parhau i dyfu ar draws y DU**, er yn araf, gyda darpariaeth band eang cyflym iawn yn aros ar 96%, ond band eang gwibgyswllt yn codi i 62% (o 61% ym mis Ionawr 2021).

**Mae darpariaeth symudol yn dal yn sefydlog** wrth i gynlluniau ddatblygu i ddechrau cyflwyno darpariaeth i ardaloedd newydd drwy'r **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, mewn cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth y DU yn 2020. Ar ben hynny, mae rhaglen mewnlenwi 4G yr Alban yn parhau i fynd i'r afael â 'mannau di-gyswllt' ac mae cynllun Talebau Band Eang yr Alban yn darparu rhagor o gymorth. O ganlyniad i hyn, mae disgwyl i ddarpariaeth genedlaethol gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Fel yr oeddem yn ei wneud gyda diweddariadau blaenorol, rydyn ni'n cyhoeddi [dangosfwrdd](#) a [siart rwyngweithiol](#) ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, sy'n cynnwys y data diweddaraf a data hanesyddol.

Mae'r data o'r diweddariad hwn wedi cael eu defnyddio hefyd i adnewyddu ein [gwefan gwirio darpariaeth](#) (cliciwch ar 'Cymraeg').

## Y prif ganfyddiadau - Band Eang Sefydlog

**Band eang cyfradd gigadid:** mae argaeledd band eang sy'n gallu darparu cyflymder Gigadid<sup>1</sup> i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron i 11.6 miliwn o gartrefi yn y DU<sup>2</sup> (40%) nawr yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau cyflymach hyn, i fyny o 10.8 miliwn o gartrefi (37%) ym mis Ionawr 2021. Mae hyn wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan y broses o gyflwyno cysylltiadau ffeibr i'r adeilad (FTTP) gyda rhywfaint o gynnydd o raglen uwchraddio DOCSIS3.1 Virgin Media O2.

**Darparu ffeibr llawn:** Mae gan bron i chwarter (24%) y cartrefi fynediad at wasanaethau ffeibr llawn. Mae darpariaeth ffeibr llawn bellach yn 6.9 miliwn, sy'n gynydd o'r 5.9 miliwn (21%) a gofnodwyd

<sup>1</sup> Mae rhwydweithiau cyfradd gigadid yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith sy'n gallu cynnig o leiaf 1 Gdid yr eiliad o gyflymder llwytho i lawr (fel y fersiwn ddiweddaraf o dechnoleg rhwydwaith cebl – DOCSIS 3.1)

<sup>2</sup> Sylwch ein bod yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, gwibgyswllt a chyflym iawn, ond ein bod yn adrodd ar eiddo masnachol a phreswyl o ran 'band eang teilwng'

yn Niweddariad Gwanwyn Cysylltu'r Gwledydd. Mae hyn wedi'i sbarduno'n bennaf drwy ddarpariaeth gan y gweithredwyr seilwaith ffeibr mwy, ond wedi'i gefnogi gan nifer gynyddol o ddarparwyr llai ledled y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol.

**Band eang gwibgyswllt** (cyflymder llwytho i lawr o 300 Mdid yr eiliad <sup>3</sup> o leiaf): mae mwy na hanner miliwn yn fwy o gartrefi ar draws y DU yn awr yn gallu cael mynediad i fand eang gwibgyswllt, sef 18.2 miliwn o gartrefi (62%). Mae hyn wedi'i sbarduno'n bennaf gan weithrediadau Openreach a gweithredwyr ffeibr llawn eraill, yn ogystal â Virgin Media. Mewn rhai ardaloedd (trefol yn bennaf) mae rhwydweithiau ffeibr newydd a rhwydweithiau cyfradd gigadid yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd sydd eisoes â darpariaeth gwibgyswllt, ac felly dydy'r cynnydd mewn argaeledd ffeibr llawn a rhwydweithiau cyfradd gigadid ddim o reidrwydd yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn darpariaeth gwibgyswllt.

**Band eang cyflym iawn** (cyflymder llwytho i lawr o 30 Mdid yr eiliad o leiaf): wrth i rwydweithiau ganolbwyntio ar gyflwyno cysylltiadau ffeibr llawn newydd a chysylltiadau cyfradd gigaid eraill, mae cyflwyno band eang cyflym iawn ledled y DU wedi arafu, er bod y ddarpariaeth yn dal yn 96% o gartrefi.

**Band eang digonol** (cyflymder llwytho i lawr o 10 Mdid yr eiliad a llwytho i fyny o 1 Mdid yr eiliad): erbyn hyn mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu manteisio ar fand eang digonol. Mae nifer yr adeiladau (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang 'digonol' drwy linell sefydlog yn parhau i fod yr un fath i raddau helaeth, sef 650,000 (gan aros ychydig dros 2%).

Mae gwasanaethau band eang hefyd ar gael drwy rwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), a ddarperir drwy rwydweithiau symudol neu drwy Ddarparwyr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr (WISPs). Os cânt eu rheoli'n dda, gall rhwydweithiau FWA ddarparu gwasanaeth band eang digonol, a gellir eu defnyddio fel technoleg rhwydwaith amgen lle nad oes gan ddefnyddwyr fynediad at gysylltiad band eang digonol ar rwydwaith sefydlog. Ers yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ym mis Rhagfyr, rydym wedi cywain data gan fwy o WISPs. Ar sail y ddarpariaeth a nodwyd gan y darparwyr hyn, rydym yn awr yn amcangyfrif bod gan 6% o adeiladau signal gan WISP sy'n gallu darparu gwasanaeth band eang digonol (i fyny o 5%). Mae darpariaeth FWA gan rwydweithiau symudol sy'n gallu darparu band eang digonol ar gael i 93% o adeiladau.

Gan ystyried yr amcangyfrifon darpariaeth a roddwyd gan ddarparwyr FWA, rydym yn amcangyfrif y gallai fod 134,000 o adeiladau o hyd nad oes ganddynt fynediad at wasanaeth band eang digonol o rwydwaith sefydlog neu rwydwaith FWA. Mae hyn wedi gostwng o'n hamcangyfrif o 189,000 ym mis Rhagfyr 2020.<sup>4</sup>

O'r 134,000 hyn, byddant yn gymwys ar gyfer yr rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) os na ddisgwylir iddynt gael eu cynnwys gan gynlluniau a ariennir gan arian cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis nesaf, a lle nad yw dadansoddiad pellach gan BT yn dangos ei fod eisoes yn gallu cysylltu'r rhain

---

<sup>3</sup> Gall band eang gwibgyswllt gael ei ddarparu drwy amrywiaeth o dechnolegau, fel G.Fast, DOCSIS (Ceb1) a ffeibr llawn.

<sup>4</sup> Oherwydd y diweddariadau mewn cronfeydd data cyfeiriadau a ddefnyddir, mae Ofcom wedi gallu nodi adeiladau ychwanegol yn ardaloedd darpariaeth FWA yr adroddir amdanynt. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn yr adeiladau sy'n cael eu hadrodd nad ydynt yn cael gwasanaeth band eang digonol, yn unol â diffiniad y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO).

o'i rwydwaith presennol.<sup>5</sup> O'r herwydd, rydym yn disgwyl y bydd nifer yr adeiladau sy'n gymwys ar gyfer yr USO yn is na'r ffigur hwn.

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ledled y DU; byddwn yn adrodd yn fwy manwl ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ym mis Rhagfyr 2021.

## Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl sy'n defnyddio eu ffonau symudol.<sup>6</sup> Ni fu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ers ein hadroddiad diwethaf, ond rydym yn disgwyl i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN), y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant yn 2020, sbarduno gwelliannau i'r ddarpariaeth dros y blynyddoedd nesaf.

**4G:** Ni welwyd newidiadau sylweddol yn darpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Mae gan oddeutu 92% o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys yr holl adeiladau yn y DU bron. Disgwylir i hyn godi i 95% erbyn diwedd 2026 o ganlyniad i'r SRN. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymru a'r Alban yn sylweddol is. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol unigol wedi ymrwmo i sicrhau darpariaeth rhwng 85% ac 88% yng Nghymru erbyn 2027<sup>7</sup> o dan fuddsoddiad SRN y Llywodraeth, a rhwng 82% ac 85% yn yr Alban.

**Mannau heb wasanaeth 4G:** Mae manau digyswllt daearyddol ac ar ffyrdd (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol) wedi gostwng rhywfaint. Mae manau digyswllt daearyddol wedi gostwng i 8% o 9%. Mae darpariaeth ar ffyrdd yn aros yr un fath i raddau helaeth, gyda dim ond 4% o fannau digyswllt. Mae'r darlun, mewn gwledydd unigol, yn amrywio'n sylweddol, yn enwedig yng Nghymru a'r Alban, fodd bynnag.

**Darpariaeth galwadau a negeseuon testun:** Fel gyda 4G, ni fu fawr o newid at ei gilydd ers y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae 80% o ehangdir y DU yn cael darpariaeth o ran galwadau a negeseuon testun gan yr holl weithredwyr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys 99% o'r adeiladau yn y DU.

**Mannau heb wasanaeth galwadau/negeseuon testun:** Yn yr un modd, ni fu newid yn yr ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu ffonio neu anfon neges destun drwy unrhyw weithredwr, ac mae'r manau daearyddol heb wasanaeth oddeutu 5% o'r DU, a'r manau heb wasanaeth o gwmpas ffyrdd y DU oddeutu 2%. Fel sy'n wir am 4G, mae amrywiadau amlwg rhwng y gwledydd unigol; er enghraifft,

---

<sup>5</sup> Er mwyn cefnogi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang, rydym yn darparu data i BT ar y safleoedd a allai fod yn gymwys ar gyfer yr USO. Ar sail ffigurau Rhagfyr 2020, rhoesom fanylion am y 189,000 o safleoedd na fwriedir iddynt fod yn rhan o'r ddarpariaeth a ariennir gan arian cyhoeddus. Ar ddadansoddiad pellach gan BT, canfu ei fod yn gallu cysylltu ag ychydig o dan 100,000 o'r safleoedd hyn. Rydym yn gweithio gyda BT i sicrhau bod ei waith cyflwyno data ar gyfer Cysylltu'r Gwledydd yn helpu i nodi safleoedd o'r fath yn y dyfodol.

<sup>6</sup> Manylwyd ar y diffiniadau yn yr atodiad ar fethodoleg yn adroddiad mis Rhagfyr 2019:

[https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0021/186411/connected-nations-2019-methodology.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/186411/connected-nations-2019-methodology.pdf)

<sup>7</sup> Mae hwn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2026 ers ein diweddariad diwethaf

mae'r manau daearyddol heb wasanaeth ar draws yr Alban yn dal yn uwch nag yng ngweddill y DU (tua 11% o'i gymharu ag oddeutu 5% i'r DU gyfan).

**5G:** Nid ydym yn dal ond megis dechrau ar y gwaith o gyflwyno 5G, felly ni fyddwn yn adrodd ar y ddarpariaeth 5G yn y diweddariad hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i sefydlu'r ffordd orau o werthuso ac adrodd ar ddarpariaeth 5G, y bwriadwn ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2021.

## Cynlluniau ar draws y DU a'r Gwledydd sy'n cefnogi rhwydweithiau band eang

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Ofcom ei adolygiad o Delathrebu Sefydlog Cyfanwerthol,<sup>8</sup> yn nodi nifer o fesurau i gymhell buddsoddiad mewn seilwaith rhwydwaith – gan roi sicrwydd rheoleiddiol a chaniatáu i gwmnïau wneud elw teg, ar yr un pryd â sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael mynediad at fand eang fforddiadwy wrth i rwydweithiau newydd gael eu cyflwyno. O ganlyniad i'r adolygiad, mae BT wedi cynyddu nifer y safleoedd y mae wedi ymrwmo i gysylltu â ffeibr.

**Y DU:** Ar 19 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Project Gigabit"<sup>9</sup>; cronfa prosiect seilwaith gwerth £5bn i gefnogi cyflwyno band eang cyfradd gigadid i gartrefi a safleoedd mewn llefydd anodd eu cyrraedd. Cyhoeddwyd yr ardaloedd cyntaf i elwa o'r cyllid a rhyddhawyd gwerth £210 miliwn ychwanegol o dalebau gigadid. Cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddiweddariad ganol Awst 2021, yn cyhoeddi cynllun cyflawni llawn ar gyfer y filiwn adeilad cyntaf, cam 1, gyda chynllun ar gyfer cam 1b i ddilyn. Disgwylir y bydd y gwaith caffael ar gyfer cam 2 yn dechrau ganol 2022.

Mae "Gwella Cysylltedd Safleoedd Anodd iawn eu Cyrraedd" Llywodraeth y DU wedi cwblhau ei chais am dystiolaeth ac mae'n archwilio ymatebion gyda'r bwriad i weithredu.<sup>10</sup> Ar hyn o bryd mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried 3000 o ymatebion cyn ystyried opsiynau ar gyfer safleoedd "anodd iawn eu cyrraedd".

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi bod dros 600,000 o adeiladau ledled y DU wedi cael eu cysylltu â band eang cyfradd gigadid ers haf 2018 o ganlyniad i ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ddarparu £1 biliwn o gyllid, sy'n rhedeg tan ddiwedd 2021. Mae BT wedi cyflymu ei broses o gyflwyno ffeibr llawn o 20 i 25 miliwn erbyn 2026<sup>11</sup>, yn yr un modd mae Virgin Media O2 yn bwriadu cyflwyno ffeibr llawn ar draws ei rwydwaith erbyn 2028<sup>12</sup>.

**Yr Alban:** Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adroddiad<sup>13</sup> mewn perthynas â'i Strategaeth Ddigidol, sy'n tynnu sylw at y cynnydd mewn perthynas â'u rhaglenni mewnlenwi

---

<sup>8</sup> [Datganiad: Hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26 – Ofcom](#)

<sup>9</sup> <https://www.gov.uk/government/news/government-launches-new-5bn-project-gigabit>

<sup>10</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/improving-broadband-for-very-hard-to-reach-premises>

<sup>11</sup> [BT to increase and accelerate FTTP build to 25m premises by the end of 2026](#)

<sup>12</sup> [Virgin Media O2 bolsters future network with fibre upgrade plan - Virgin Media O2](#)

<sup>13</sup> <https://www.gov.scot/publications/realising-scotlands-full-potential-digital-world-digital-strategy-scotland-progress-report-2017-2021/>

Reaching 100% ("R100")<sup>14</sup> a 4G yn yr Alban. daeth hyn yn sgil cyhoeddiad<sup>15</sup> ddiwedd mis Mai 2021 am £3.75m ychwanegol ar gyfer y rhaglen mewnlenni 4G a fyddai'n ariannu 9 mast ychwanegol, a fyddai'n gwella darpariaeth symudol yn rhai o rannau mwyaf gwledig yr Alban.

Mae cymorth ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaeth band eang a all gefnogi band eang gwibgyswllt erbyn diwedd 2021, a fydd yn cael ei ddarparu drwy gynllun talebau cenedlaethol sy'n cael ei arwain gan y galw, sef Cynllun Talebau Band Eang yr Alban.<sup>16</sup> Mewn rhai achosion, gall cyfeiriadau gwledig fod yn gymwys i gyfuno cyllid Llywodraeth yr Alban o hyd at £5,000 gyda chyllid gan Gynllun Talebau Band Eang Gigadid Llywodraeth y DU (GBVS), sy'n darparu £1,500 ar gyfer cartrefi gwledig a £3,500 ar gyfer busnesau gwledig. Mae teclyn gwirio ar-lein ar gael i bobl gael gwybod am eu cymhwysedd. Gall cynlluniau talebau fod ar gael ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau: FTTP; FWA, naill ai cellog neu bwynt i bwynt; neu loeren. Bydd y dechnoleg a ddewisir yn cael ei chydbwysio ar sail yr hyn sydd ar gael yn yr ardal a'r hyn sy'n addas ar gyfer yr eiddo dan sylw.

**Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian atodol<sup>17</sup> drwy ei chynllun talebau, ar gyfer yr adeiladau gwledig hynny sy'n gymwys o dan gynllun Band Eang cyfradd gigadid Llywodraeth y DU. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £10 miliwn, drwy ei Chronfa Band Eang Lleol, i helpu awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i ddarparu prosiectau band eang yn lleol. Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru<sup>18</sup> hefyd yn darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) y costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru.

**Gogledd Iwerddon:** Bydd Prosiect Stratum, rhaglen ymyrryd band eang Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn cael £25m ychwanegol drwy raglen Prosiect Gigadid Llywodraeth y DU, a fydd yn ymestyn band eang ffeibr i 8,500 o adeiladau ychwanegol.<sup>19</sup> Mae'r adeiladau ymysg y rhai nad ydynt yn dod o dan y swp cyntaf o gyllid Project Stratum, a gyhoeddwyd y llynedd (tua 76,000).

Mae rhagor o gyllid o'r rhaglen Prosiect Gigadid, sef £24m, hefyd wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer rhaglen Ffeibr Llawn Gogledd Iwerddon (FFNI) i gysylltu cannoedd o adeiladau cyhoeddus â rhwydweithiau cyfradd gigadid.<sup>20</sup> Nod prosiect FFNI yw cysylltu bron i 1,000 o adeiladau cyhoeddus - gan gynnwys ysbytai, meddygfeydd meddygon teulu, swyddfeydd cyngor a chanolfannau cymunedol - â band eang gigadid erbyn mis Mawrth 2022.

## Cywain y data ac adrodd arno

Rydym yn parhau i gynyddu nifer y gweithredwyr rydym yn cywain data darpariaeth ganddynt er mwyn gwella cywirdeb y data a gyhoeddir gennym. Rydym hefyd yn parhau i gywain data am ddarpariaeth ar sail 4 misol a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn.

<sup>14</sup> <https://www.scotlandsuperfast.com/the-r100-programme/r100-superfast-access-for-all/>

<sup>15</sup> <https://www.gov.scot/news/gbp-3-75-million-to-improve-rural-connectivity/>

<sup>16</sup> <https://www.scotlandsuperfast.com/the-r100-programme/scottish-broadband-voucher-scheme/>

<sup>17</sup> [Cymru – Talebau Gigadid \(culture.gov.uk\)](https://www.cymru.gov.uk/cymru-talebau-gigadid)

<sup>18</sup> [Cynllun Allwedd Band Eang Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.cymru.gov.uk/cynllun-allwedd-band-eang-cymru)

<sup>19</sup> <https://www.fibrus.com/news/additional-investment>

<sup>20</sup> <https://www.bbc.co.uk/news/uk-northern-ireland-57644495>

## 2. Dangosfyrddau

### Band eang sefydlog

Mynediad at ffeibr llawn	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	18%	21%	24%
Lloegr	16%	19%	23%
Gogledd Iwerddon	56%	63%	67%
Yr Alban	17%	20%	23%
Cymru	19%	21%	24%

Mynediad at wasanaethau cyfradd Gigadid	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	27%	37%	40%
Lloegr	25%	36%	38%
Gogledd Iwerddon	56%	69%	73%
Yr Alban	42%	44%	47%
Cymru	19%	28%	30%

Mynediad at wasanaethau Gwibgyswilt	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	59%	61%	62%
Lloegr	61%	62%	64%
Gogledd Iwerddon	64%	69%	73%
Yr Alban	52%	54%	57%
Cymru	37%	38%	40%

Mynediad at wasanaethau Cyflym iawn	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	96%	96%	96%
Lloegr	96%	96%	96%
Gogledd Iwerddon	89%	90%	90%
Yr Alban	94%	94%	94%
Cymru	94%	94%	94%

Mynediad at wasanaethau 10 Mdid yr eiliad	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	98%	98%	98%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	95%
Yr Alban	97%	97%	97%
Cymru	97%	97%	97%

Nodyn 1: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2.mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi



Nodyn 2: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Nodyn 3: Mae'r holl ffigurau'n cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

## Mynediad Di-wifr Sefydlog

Ers ein hadroddiad diwethaf, rydym wedi cynyddu nifer y Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr (WISPs) yr ydym yn cywain data gwasanaeth Mynediad Di-wifr Sefydlog ganddynt. Mae'r canlynol yn dangos adeiladau lle mae band eang digonol ar gael drwy FWA.

Mynediad Di-wifr Sefydlog	Ionawr 2021	Mai 2021
	% y safleoedd a wasanaethir	% y safleoedd a wasanaethir
Y DU (Gweithredwr Rhwydwaith Symudol - MNO)	94%	93%
Y DU (Darparwr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr - WISP)	5%	6%

## Cymhwysedd USO

Canran y cartrefi a'r busnesau na allant gael mynediad i wasanaeth band eang sefydlog neu FWA digonol, sef cyflymder llwytho i lawr o 10 Mdid yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mdid yr eiliad o leiaf.<sup>21</sup>

Methu cael gwasanaethau 10Mbit yr eiliad llwytho i lawr ac 1Mbit yr eiliad llwytho i fyny (yn gymwys o bosib am USO)	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	1%	1%	0.4%
Lloegr	0.5%	0.5%	0.3%
Gogledd Iwerddon	2%	2%	2%
Yr Alban	1%	1%	1%
Cymru	1%	1%	1%

<sup>21</sup> Yn ein diweddariad yn y Gwanwyn, fe wnaethom adrodd ar ganran y safleoedd nad oeddent yn gallu cael mynediad i wasanaeth band eang digonol ar sail mynediad sefydlog yn unig. Er mwyn gallu cymharu, rydym yn nodi bod y canrannau ar gyfer safleoedd heb fand eang digonol pan mai dim ond mynediad sefydlog sy'n cael ei ystyried, yr un fath â diweddariad y Gwanwyn.

## Darpariaeth 4G

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	98%	98%	98%
Lloegr	98%	98%	98%
Gogledd Iwerddon	94%	94%	94%
Yr Alban	96%	96%	96%
Cymru	93%	93%	93%

Ardal ddaearyddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	69%	69%	69%
Lloegr	84%	84%	84%
Gogledd Iwerddon	79%	79%	79%
Yr Alban	44%	44%	44%
Cymru	60%	60%	60%

Ardal ddaearyddol bad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	9%	9%	8%
Lloegr	3%	3%	3%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	19%	19%	19%
Cymru	10%	10%	10%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	59%	59%	60%
Lloegr	66%	66%	67%
Gogledd Iwerddon	48%	48%	48%
Yr Alban	46%	46%	46%
Cymru	49%	49%	49%

Pob ffordd nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	4%	4%	4%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	7%	7%	7%
Yr Alban	8%	8%	8%
Cymru	10%	10%	10%

Nodyn 1: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu sy'n 2Mdid yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

## Darpariaeth galwadau a negeseuon testun

Safleoedd (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	97%	97%	97%
Yr Alban	98%	98%	98%
Cymru	98%	98%	98%

Ardal ddaeryddol sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	80%	80%	80%
Lloegr	92%	92%	92%
Gogledd Iwerddon	87%	87%	87%
Yr Alban	59%	59%	59%
Cymru	78%	78%	78%

Ardal ddaeryddol nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	5%	5%	5%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	11%	11%	11%
Cymru	5%	5%	5%

Darpariaeth ar bob ffordd gan bob gweithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	77%	77%	77%
Lloegr	83%	83%	84%
Gogledd Iwerddon	64%	65%	65%
Yr Alban	63%	63%	64%
Cymru	70%	71%	71%

Pob ffordd nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr	Medi 2020	Ionawr 2021	Mai 2021
Y DU	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	4%	4%	4%
Cymru	5%	5%	5%

Y trothwyon ar gyfer llais a thestun yw: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).